



CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD  
CYNGOR SIR YNYS MÔN A CHYNGOR  
GWYNEDD  
DATGANIAD GWRANDAWIAD  
SESIWN 6 (AMGYLCHEDD  
NATURIOL AC ADEILEDIG)

YMATEBYDD: HORIZON NUCLEAR  
POWER WYLFA LIMITED (CYF: 2919)

Awst 2016

Ein cyf: Q60570



## Cynnwys

1	CYFLWYNIAD .....	1
2	DADANSODDIAD CYNLLUNIO.....	3
3	NEWIDIADAU A GEISIR.....	8
ATODIAD 1 – POLISI PS16 ‘CADW A GWELLA’R AMGYLCHEDD NATURIOL’ (FEL Y’I DIWYGIWYD GAN UPCC) ....		9
ATODIAD 2 – DARN O FAP CYFYNGIADAU RHYNGWEITHIOL, FERSIWN ADNAU O DDATGANIAD YSGRIFENEDIG Y CDLI AR Y CYD (2015)10		
ATODIAD 3 – LLYTHYR GAN HORIZON I UPCC YNGHYLCH GNL TRWYN YR WYLFA (DYDDIEDIG 12 AWST 2016) .....		11

## Dogfennau

Dylid darllen y datganiad hwn ar y cyd â chyflwyniadau ar wahân yr ymatebydd, fel y rhestrir isod:

DATGANIAD GWRANDAWIAD SESIWN 1: PARATOI’R CYNLLUN, GWELEDIGAETH A STRATEGAETH

DATGANIAD GWRANDAWIAD SESIWN 2: DARPARIAETH TAI

DATGANIAD GWRANDAWIAD SESIWN 5: ECONOMI – CYFLOGAETH, MANWERTHU A THWRISTIAETH

DATGANIAD GWRANDAWIAD SESIWN 9: WYLFA

## Atodiadau

Atodiad 1 – Polisi PS16 (fel y’i diwygiwyd gan UPCC)

Atodiad 2 – Darn o Fap Cyfyngiadau Rhyngweithiol, Fersiwn Adnau o Ddatganiad Ysgrifenedig y CDLI ar y Cyd (2015)

Atodiad 3 – Llythyr Gan Horizon i UPCC ynghylch Trwyn Yr Wylfa (dyddiedig 12 Awst 2016)

# 1 CYFLWYNIAD

## a) Yr Ymatebydd

- 1.1 Mae'r ymatebydd, Horizon Nuclear Power Wylfa Limited ("Horizon"), yn rhoi cynigion ymlaen ar gyfer adeiladu a gweithredu gorsaf ynni niwclear newydd yn Wylfa a datblygiadau cysylltiedig ("Prosiect Wylfa Newydd" neu'r "Prosiect"). Mae'r Datganiad Gwrandawriad hwn (y "Datganiad") yn delio'n benodol â Sesiwn 6 – Amgylchedd naturiol ac adeiledig.
- 1.2 Parhaodd Horizon i gynnal deialog cynhyrchiol gyda Chyngor Sir Ynys Môn a ("CSYM") a Chyngor Gwynedd (gyda'i gilydd, "y Cynghorau") ar ôl cyflwyno ei sylwadau i wahanol gamau ymgynghori y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ("y Cynllun"). Mae Horizon wedi gweithio gyda'r Cynghorau i ddod i gytundeb ar faterion lle bo hynny'n bosibl a bydd hyn yn cael ei nodi yn y Datganiad o Dir Cyffredin ("SoCG") sydd i gael ei ffeilio ar 23 Awst.
- 1.3 Mae'r Datganiad hwn felly'n ymdrin â'r materion sy'n weddill lle naill ai na chyrrhaeddwyd cytundeb, neu lle mae trafodaethau yn mynd yn eu blaenau.
- 1.4 Fel yr esbonnir yn y Datganiad hwn, ystyria Horizon bod angen diwygiadau penodol i bolisiau PS16 a Map Cynigion 1 er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Ceir manylion o'r newidiadau a gynigir i'r polisiau hynny yn Adran 3 ac Atodiadau 1 a 2.

## **b) Strwythur y Datganiad Gwrandawriad**

- 1.5 Dengys y Datganiad hwn yng nghyd-destun (a) uchod bod Horizon yn dadlau nad yw'r Cynllun yn gadarn mewn perthynas â'r tri mater a nodir ym mharagraff 1.5 isod, pan gaiff ei asesu yn erbyn y prawf cadernid a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, 2016) ("Polisi Cynllunio Cymru") a'r deg maen prawf cadernid a nodir yn y Cynllun<sup>1</sup>.
- 1.6 Mae'r datganiad hwn wedi'i gyfyngu i faterion a godwyd gan yr Arolygydd, yn yr Agenda Materion i Sesiwn 6, sef:

---

<sup>1</sup> Paragraff 1.17, Fersiwn Gyfansawdd o Ddatganiad Ysgrifenedig CDLI ar y Cyd (Ebrill 2016)

- 1. A yw Polisi PS16 a Thabl 23 yn darparu fframwaith polisi strategol priodol ar gyfer ystyried cynigion datblygu a diogelu a gwarchod yr amgylchedd naturiol, ac yn enwedig Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)?
- 5. A yw'r Cynllun yn darparu amddiffyniad effeithiol i'r amgylchedd naturiol? A yw'r dull a ddefnyddir yn adlewyrchu arwyddocâd cymharol y dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol yn gyson â Pholisi Cynllunio Cymru Pennod 5?
- 8. Unrhyw Fater Arall (Dynodiad GNL Trwyn yr Wylfa)

- 1.7 Mae Horizon hefyd yn dibynnu ar ei gyflwyniadau mewn perthynas â Sesiynau 1 (Paratoi'r cynllun, gweledigaeth a strategaeth), 2 (Darpariaeth tai), 5 (Economi – Cyflogaeth, manwerthu a thwristiaeth), a 9 (Wylfa).
- 1.8 Mae Adran 2 o'r datganiad hwn yn rhoi dadansoddiad o'r Cynllun ac asesiad o'i gadernid yn erbyn y meini prawf a nodir yn PCC<sup>2</sup> a'r Cynllun<sup>3</sup> ei hun, mewn perthynas â'r materion dan sylw a godwyd gan yr Arolygydd.
- 1.9 Mae Adran 3 yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig y mae Horizon yn eu hystyried yn hanfodol i sicrhau cadernid y Cynllun.

---

<sup>2</sup> Paragraff 2.5.11, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)

<sup>3</sup> Paragraff 1.17, Fersiwn Gyfansawdd o Ddatganiad Ysgrifenedig CDLI ar y Cyd (Ebrill 2016)

## 2 DADANSODDIAD CYNLLUNIO

- 2.1** Nid yw'r Cynllun ar hyn o bryd yn darparu fframwaith polisi digon clir i gefnogi a darparu'r rheolaeth angenrheidiol ar gyfer elfennau sylweddol o Brosiect Wylfa Newydd. Mae cryn ansicrwydd ynghylch pa bolisiau sy'n berthnasol, a sut y byddant yn cael eu defnyddio. Gan fod Horizon angen datblygiadau cysylltiedig er mwyn cyflenwi Wylfa Newydd, mae hyn yn cyflwyno risg clir iawn i'r Prosiect ei hun.
- 2.2** Mae'n hanfodol bod y Cynllun yn cael ei fireinio a'i ddiwygio fel bod gwahaniaeth clir rhwng y polisiau hynny sy'n ymwneud â chynigion sy'n berthnasol yn gyffredinol a'r rhai sy'n ymwneud â Phrosiect Wylfa Newydd (datblygiadau cysylltiedig yn arbennig). Heb y mireinio hwn, mae gormod o ansicrwydd ynghylch pa bolisiau fydd yn berthnasol a sut y byddant yn cael eu cymhwyso.

**a) A yw Polisi PS16 a Thabl 23 yn darparu fframwaith polisi strategol priodol ar gyfer ystyried cynigion datblygu a diogelu a gwarchod yr amgylchedd naturiol, ac yn enwedig Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)?**

*(Cwestiwn 1, Sesiwn Gwrandawriad 6 Amgylchedd Hanesyddol a Naturiol - Agenda Materion)*

- 2.1** Ystyrir bod geiriad presennol polisi PS16 yn rhy anhyblyg, gan nodi y bydd cynigion sy'n cael effaith andwyol ar yr amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir yn cael eu gwrthod. Er enghraifft, mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ("SoDdGA") Tre'r Gof o fewn ffin Safle gwaith Niwclear Wylfa Newydd ("NPS") ac mae Cyngor Sir Ynys Môn ("CSYM") yn ymwybodol o'r potensial y bydd adeiladu Prosiect Wylfa Newydd yn cael effaith andwyol ar y dynodiad hwn. Hefyd nid yw'r canlyniad a geisir yn caniatáu digon o hyblygrwydd ar gyfer newidiadau mewn amgylchiadau, nid yn unig i Brosiect Wylfa Newydd, ond unrhyw ddatblygiad a fyddai'n cael effaith andwyol ar yr amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir.
- 2.2** Yn bwysig, mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar Ynni ("EN-1") yn cydnabod y gall fod effeithiau gweddilliol sylweddol o ganlyniad i Brosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd ("NSIP") ac y dylai hyn gael ei asesu'n ddigonol. Ni ystyrir ei fod yn ddigonol gadael materion o bwysigrwydd posibl o'r fath yn gyfan gwbl i'r broses rheoli datblygu, heb gydnabod y

gall fod achosion lle gallai datblygiadau fod yn dderbyniol er gwaethaf eu heffeithiau, yn amodol ar asesiad a lliniaru priodol.

2.3 Hefyd ystyrir bod dull polisi PS16 polisi yn anghyson â pholisi cenedlaethol, gan fod Polisi Cynllunio Cymru<sup>4</sup> yn honni'r canlynol:

*“Gall SoDdGAau gael eu difrodi gan ddatblygiadau y tu mewn i’w ffiniau neu gerllaw ac, mewn rhai achosion, gan ddatblygiadau sydd gryn bellter i ffwrdd. Mae rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad sy’n debygol o beri niwed i SoDdGA. Cyn awdurdodi gweithrediadau sy’n debygol o niweidio unrhyw un o’r nodweddion hysbys ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol rybuddio Cyfoeth Naturiol Cymru am y gweithrediadau arfaethedig, a rhaid iddynt ystyried ei gyngor wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd cynllunio ai peidio ac wrth osod amodau cynllunio.”<sup>5</sup>*

2.4 Mae'r dyfyniad hwn, yn wahanol i bolisi PS16, yn cydnabod yn glir mewn rhai achosion, y bydd datblygiadau yn arwain at ddifrod i SoDdGA ond bod angen pwysu hyn yn erbyn cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru a manteision cynigion wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

2.5 Mae'r mater hwn wedi bod yn destun deialog parhaus rhwng Horizon a'r UPCC, sydd wedi cynnig geiriad diwygiedig i bolisi PS16, fel y dangosir yn Atodiad 1. Mae'r geiriad diwygiedig yn mewnosod y geiriad, "bydd cynigion sy'n cael effaith andwyol sylweddol arnynt [*amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir*] yn cael eu gwrthod oni bai bod angen a manteision y datblygiad yn y lleoliad hwnnw yn amlwg yn gwrthbwysu gwerth y safle neu'r ardal ac amddiffyniadau polisi cenedlaethol ar gyfer y safle hwnnw neu'r ardal honno.”

2.6 Ystyria Horizon bod y geiriad diwygiedig hwn yn alinio polisi PS16 gyda pholisi cenedlaethol ac yn cyflwyno'r hyblygrwydd priodol, a thrwy hynny'n cwrdd â phrawf cadernid 1 a 3 ym Mholisi Cynllunio Cymru<sup>6</sup> a phrofion CE2 a CE4 yn y Cynllun<sup>7</sup>.

---

<sup>4</sup> Paragraff 5.5.8, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)

<sup>5</sup> Paragraff 5.5.8, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)

<sup>6</sup> Paragraff 2.5.11, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)

<sup>7</sup> Paragraff 1.17, Fersiwn Gyfansawdd o Ddatganiad Ysgrifenedig CDLI ar y Cyd (Ebrill 2016)

2.7 Mae Horizon a'r Cynghorau yn ceisio cytuno ar ddiwygiadau sy'n cyfateb i bolisiâu AMG1, 2 a 6 am yr un rhesymau ag y nodwyd uchod ar gyfer PS16. Bydd ein geiriad arfaethedig ar y cyd yn cael ei roi yn y SoCG sydd i'w ddarparu ar 23 Awst.

**b) A yw'r Cynllun yn darparu amddiffyniad effeithiol i'r amgylchedd naturiol? A yw'r dull a ddefnyddir yn adlewyrchu arwyddocâd cymharol y dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol yn gyson â Pholisi Cynllunio Cymru Pennod 5?**

*(Cwestiwn 5, Sesiwn Gwrandawriad 6 Amgylchedd Adeiledig a Naturiol - Agenda Materion)*

2.8 Ystyria Horizon nad yw'r Cynllun yn rhoi digon o hyblygrwydd i roi cyfrif am gynigion a allai gael effaith andwyol ar yr amgylchedd. Yn benodol, dylai polisi PS16 gael ei aileirio i roi mwy o hyblygrwydd fel bod cynigion datblygu y rhagwelir a fydd yn cael effaith andwyol yn ganiataol, yn amodol ar nodi a gweithredu mesurau lliniaru digonol, a gefnogir gan gynllun gweithredu priodol.

2.9 Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-1 trosfwaol yn cydnabod y gall fod effeithiau gweddilliol sylweddol yn gysylltiedig ag NSIPs, ac y dylid asesu'r rhain yn ddigonol. Ni ystyrir ei fod yn ddigonol i bolisiâu gynnwys gwaharddiadau cyffredinol ar ddatblygiadau sy'n debygol o arwain at effeithiau amgylcheddol andwyol, heb gydnabod y gall fod achosion lle gallai cynigion o'r fath fod yn dderbyniol, yn amodol ar asesiad a lliniaru priodol. Heb y fath hyblygrwydd, ystyrir bod y Cynllun yn methu'r prawf cadernid sydd ym Mholisi Cynllunio Cymru<sup>8</sup> a phrawf CE4<sup>9</sup> yn y Cynllun ei hun.

2.10 Ceir rhagor o esboniad dan (a) uchod a (c) a (d) isod.

---

<sup>8</sup> Paragraff 2.5.11, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)

<sup>9</sup> Paragraff 1.17, Fersiwn Gyfansawdd o Ddatganiad Ysgrifenedig CDLI ar y Cyd (Ebrill 2016) Session 6 (Historic and Natural Environment)

Hearing Statement

Isle of Anglesey County Council & Gwynedd Council Joint Local Development Plan  
August 2016

**c) Unrhyw Fater Arall (Pennod 5 Gweledigaeth ac amcanion strategol, Thema 5)**

*(Cwestiwn 8, Sesiwn Gwrandawriad 6 Amgylchedd Hanesyddol a Naturiol - Agenda Materion)*

- 2.11 Mae Thema 5: ‘Gwarchod a gwella’r amgylchedd naturiol ac adeiledig’ yn y Cynllun yn cadarnhau mai canlyniad allweddol yw “na fydd unrhyw ddatblygiad y rhoddir caniatâd cynllunio iddo wedi arwain at gollu safle o werth cadwraeth natur rhyngwladol neu genedlaethol neu ddifrod i unrhyw un o'r eu nodweddion.”<sup>10</sup>
- 2.12 Mae geiriad Thema 5 yn rhy anhyblyg. Mae SoDdGA Tre'r Gof o fewn yr NPS ac mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ymwybodol o'r potensial y bydd adeiladu Prosiect Wylfa Newydd yn cael effaith andwyol ar y dynodiad hwn er y bydd Horizon yn ceisio osgoi hyn. Fel gyda pholisi PS16, nid yw'r allbwn a geisir yn caniatáu digon o hyblygrwydd ar gyfer newidiadau mewn amgylchiadau ac nid yw'n cydnabod bod proses yn bodoli lle y gall SoDdGA gael ei dad-ddynodi, fel y nodwyd mewn polisi cenedlaethol. Felly mae Horizon yn ystyried nad yw'r Cynllun yn gadarn mewn perthynas â phrawf cadernid 1 ym Mholisi Cynllunio Cymru<sup>11</sup> a phrawf C2<sup>12</sup> yn y Cynllun ei hun.

**d) Unrhyw Fater Arall (Dynodiad GNL Trwyn yr Wylfa)**

*(Cwestiwn 8, Sesiwn Gwrandawriad 6 Amgylchedd Hanesyddol a Naturiol - Agenda Materion)*

- 2.13 Mae Map Cyfyngiadau 1 o'r CDLI ar y Cyd drafft yn cynnwys dynodiad “Gwarchodfa Natur Leol” (GNL) sy'n dangos pa safleoedd sy'n GNL ar hyn o bryd.
- 2.14 Ystyria Horizon nad yw safle Trwyn yr Wylfa bellach yn Warchodfa Natur Leol (GNL) a ddangosir ar Map Cyfyngiadau 1 y CDLI ar y Cyd drafft. Felly mae'r dynodiad hwn yn anghywir fel ffaith.
- 2.15 Ceir llythyr gan Horizon i'r UPCC yn rhoi mwy o fanylion pam fod Horizon yn ystyried nad yw Trwyn yr Wylfa bellach yn Warchodfa Natur Leol yn Atodiad 3. Cred Horizon felly fod y Cynllun yn anghyson â deddfwriaeth genedlaethol ac felly nad yw'n gadarn o ran prawf cadernid 1 ym Mholisi Cynllunio Cymru<sup>13</sup> a phrawf C2<sup>14</sup> yn y Cynllun ei hun.

<sup>10</sup> Thema 5, Pennod 5, Paragraff 1.17, Fersiwn Gyfansawdd o Ddatganiad Ysgrifenedig CDLI ar y Cyd (Ebrill 2016)

<sup>11</sup> Paragraff 2.5.11, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)

<sup>12</sup> Paragraff 1.17, Fersiwn Gyfansawdd o Ddatganiad Ysgrifenedig CDLI ar y Cyd (Ebrill 2016)

<sup>13</sup> Paragraff 2.5.11, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)

<sup>14</sup> Paragraff 1.17, Fersiwn Gyfansawdd o Ddatganiad Ysgrifenedig CDLI ar y Cyd (Ebrill 2016) Session 6 (Historic and Natural Environment)





<sup>13</sup> Paragraff 2.5.11, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)

<sup>14</sup> Paragraff 1.17, Fersiwn Gyfansawdd o Ddatganiad Ysgrifenedig CDLI ar y Cyd (Ebrill 2016) Session 6 (Historic and Natural Environment)

Hearing Statement

Isle of Anglesey County Council & Gwynedd Council Joint Local Development Plan  
August 2016

- 2.16 Ymhellach, mae'r UPCC yn bwriadu dynodi drwy'r CDLI ar y Cyd nifer o "safleoedd bywyd gwyllt" yn cynnwys "safle bywyd gwyllt - a aseswyd" ar safle Wylfa Newydd, sy'n cael ei gydnabod trwy NPS EN-6 fel safle a allai fod yn addas ar gyfer gorsaf ynni niwclear. Mae Horizon yn pryderu y gallai dynodiad o'r fath effeithio ar ei allu i ymgymryd â'i ddatblygiad, a phriodoldeb dynodi safle bywyd gwyllt ar dir a nodwyd fel man a allai fod yn addas i'w ddefnyddio ar gyfer datblygu ynni niwclear, am y rhesymau a roddwyd yn llythyr Horizon yn Atodiad 2.

### 3 NEWIDIADAU A GEISIR

- 3.1 Mae'n hanfodol bod polisiau yn gwneud eithriadau yn glir, yn enwedig i NSIPs a'u datblygiad cysylltiedig, pan fyddant yn berthnasol ac yn briodol i gynigion sy'n dod ymlaen. Mae'r dull hwn hefyd yn gyson â'r dull arweinir gan gynllun, sy'n ceisio sicrhau (ymhlith pethau eraill) gydbwysedd rhwng datblygu a gwarchod yr amgylchedd.

**a) Diwygiadau i Thema 5: Gweledigaeth ac amcanion strategol**

- 3.2 Nid yw Horizon yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan Newid â Ffocws Ref: NF 8 yn ymdrin â'i bryderon blaenorol. Mae Horizon a'r UPCC wedi cytuno ar egwyddor diwygio polisi PS16 a fyddai'n ymdrin â phryder Horizon.

- 3.3 Mae angen i newid hwn i gwrdd â phrawf cadernid 3 ym Mholisi Cynllunio Cymru<sup>15</sup> a phrawf CE4<sup>16</sup> yn y Cynllun ei hun. Gyda'r geiriad presennol, nid yw'n effeithiol nag yn ddigon hyblyg i gwrdd â newid mewn amgylchiadau.

**b) PS16**

- 3.4 Mae Horizon a'r UPCC wedi cytuno ar egwyddor diwygio polisi PS16. Y testun a liwoleuir yn felyn yw'r testun diwygiedig a gynigir gan yr UPCC. Mae'r geiriad manwl a therfynol yn destun i drafodaethau parhaus, a cheir copi ohono yn Atodiad 1.

**c) Diwygiadau i Map Cyfyngiadau 1**

- 3.5 Am y rhesymau a nodir yn Adran 2 - Dadansoddiad Cynllunio, cred Horizon nad yw Trwyn yr Wylfa bellach yn Warchodfa Natur Leol, ac o'r herwydd, dylai'r dynodiad hwn gael ei dynnu o Fap



Cyfyngiadau 1. Ymhellach, ni ddylai'r safle gael ei ddynodi fel "safle bywyd gwyllt". Ceir llythyr gan Horizon at yr UPCC yn rhoi manylion pellach ynghylch pam nad yw Trwyn yr Wylfa bellach yn GNL a pham na ddylid ei ddynodi fel "safle bywyd gwyllt", yn Atodiad 3 y Datganiad hwn.

---

<sup>15</sup> Paragraff 2.5.11, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)

<sup>16</sup> Paragraff 1.17, Fersiwn Gyfansawdd o Ddatganiad Ysgrifenedig CDLI ar y Cyd (Ebrill 2016)




## ATODIAD 1 – POLISI PS16 ‘CADW A GWELLA’R AMGYLCHEDD NATURIOL’ (FEL Y’I DIWYGIWYD GAN UPCC)


Bydd y Cynghorau yn rheoli datblygiad er mwyn gwarchod a gwella amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir nodedig ardal y Cynllun, a bydd cynigion sydd yn cael effaith andwyol sylweddol arnynt yn cael eu gwrthod **oni bai bod angen a manteision y datblygiad yn y lleoliad hwnnw yn amlwg yn gwrthbwysu gwerth y safle neu'r ardal ac amddiffyniadau polisi cenedlaethol ar gyfer y safle hwnnw neu'r ardal honno.** Wrth ystyried caniatáu cais, bydd yr Awdurdodau Lleol yn sicrhau eu bod yn:

1. Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau, daeareg, hanes a thirweddau ardal y Cynllun;
2. Diogelu a gwella safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a'u lleoliadau yn unol â Pholisi Cenedlaethol;
3. Yn ystyried arwyddocâd cymharol y dynodiadau wrth ystyried y pwys a roddir i fuddiannau cydnabyddedig yn unol â Pholisi Cenedlaethol;
4. Diogelu a gwella bioamrywiaeth o fewn ardal y Cynllun a gwella a/neu adfer rhwydweithiau o gynefinoedd naturiol yn unol â'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a Pholisi AMG4;
5. Diogelu a gwella bioamrywiaeth drwy rwydweithiau seilwaith gwyrdd/ glas;
6. Diogelu rhywogaethau , a warchodir yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol;
7. Diogelu, cadw neu wella cymeriad lleol a nodweddion unigryw pob Ardal Cymeriad Tirwedd (yn unol â Pholisi AMG2) ac Ardaloedd Cymeriad Morlun (yn unol â Pholisi AMG3);
8. Diogelu, cadw neu wella coed, gwrychoedd neu goetir o werth gweledol, ecolegol, hanesyddol diwylliannol neu amwynder.

## ATODIAD 2 – DARN O FAP CYFYNGIADAU RHYNGWEITHIOL, FERSIWN ADNAU DATGANIAD YSGRIFENEDIG Y CDLL AR Y CYD (2015)



### **Allwedd**



Gwarchodfa Natur Leol



## **ATODIAD 3 – LLYTHYR GAN HORIZON I UPCC YNGHYLCH GNL TRWYN YR WYLFA (DYDDIEDIG 12 AWST 2016)**

Mr Gwyndaf Jones  
Prif Swyddog Cynllunio  
Cyngor Sir Ynys Môn  
Swyddfeydd y Cyngor  
Llangefni  
LL77 7TW

**12<sup>fed</sup> Awst 2016**

DCRM Cyf rhif: HNP-S2-RI-LET-00060

Rhif Unigryw: HNP4044N

Annwyl Mr Jones,

## **STATWS DYNODEDIG BLAENOROL TRWYN YR WYLFA**

Cyn ymgynghoriad PAC2 Horizon a'r gwrandawiadau CDLI ar y Cyd sydd i ddod, yr wyf yn awyddus i grynhoi sefyllfa Horizon o ran statws dynodedig blaenorol Trwyn yr Wylfa.

Mae Horizon wedi ymrwymo i gynnal gwerth cadwraeth natur Trwyn yr Wylfa ac i sicrhau bod y safle'n cael ei reoli yn y tymor hir fel lle i warchod a gwella bioamrywiaeth leol a darparu amwynder hamdden.

Fodd bynnag, wrth i ni symud i mewn i ymgynghoriad ffurfiol o dan Ddeddf Cynllunio 2008 ac ar adeg pan rydym yn gwneud sylwadau ffurfiol i'r UPCC mewn perthynas â'r gwrandawiadau CDLI ar y Cyd sydd i ddod, credwn ei bod yn bwysig bod CSYM yn deall statws cyfreithiol y tir.

Yn seiliedig ar ein hymchwiliadau hyd yma ac yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb, rydym wedi dod i'r casgliad nad yw Trwyn yr Wylfa yn Warchodfa Natur Leol (GNL). Nodir y rhesymeg dros hyn yn yr atodiad sydd ynghlwm, fodd bynnag, gellir ei grynhoi fel a ganlyn:

- **Nid yw Cyngor Cymuned Llanbadrig (CCLI) wedi gwneud cytundeb rheoli gyda Horizon o ran Trwyn yr Wylfa**
- **Roedd gan CCLI ddyletswydd statudol i wneud datganiad nad oedd bellach yn berchennog ar Drwyn yr Wylfa**

## HORIZON COMMERCIAL

- **Mae tystiolaeth mai'r bwriad oedd gwerthu'r tir, a'i fod yn wir wedi ei werthu, yn ddilyffethair**

Ar ben hynny, fel yr esbonnir yn y atodiad, credwn bod y disgrifiad o Drwyn yr Wylfa yn y CDLI ar y Cyd fel safle bywyd gwyllt ymgeisiol yn anghywir. Felly mae ein dogfennaeth PAC2 yn cyfeirio at Trwyn yr Wylfa fel "safle bywyd gwyllt ymgeisiol arfaethedig."

Tra bod Horizon yn ystyried bod y safleoedd hyn yn gywir o safbwynt cyfreithiol, nid yw hyn yn golygu ein bod wedi cymryd, nac y byddwn yn cymryd, unrhyw ymagwedd wahanol o ran ein hystyriaeth o'r nodweddion cadwraeth natur sy'n gysylltiedig â Thrwyn yr Wylfa, o safbwynt ein gwaith asesu effaith amgylcheddol parhaus ac o ran mesurau y gellir bod angen i ni eu cymryd i ddiogelu buddiannau cadwraeth natur ar Drwyn yr Wylfa.

Yn ogystal, byddem yn dymuno ystyried mesurau posibl y gellid eu rhoi ar waith dros y tymor hwy er mwyn sicrhau diogelu ac o bosibl gwella'r nodweddion diddordeb cadwraeth natur amrywiol ar Drwyn yr Wylfa. I'r perwyl hwn, rydym yn awyddus i weithio mewn cydweithrediad â'r Cyngor a phartion eraill â diddordeb i ddatblygu ein cynlluniau mewn perthynas â Thrwyn yr Wylfa. Gallai hyn yn y pen draw olygu ymrwymo i Gytundeb Rheoli Cynefin a'r ail-ddynodi fel GNL.

Gyda hyn mewn golwg, ein bwriad yw cynnal cyfarfod gyda'r Cyngor i drafod amcanion a'r camau nesaf, gan gynnwys y berthynas gyda phob cam o brosiect Wylfa Newydd. Bydd ein tîm rhyngwyneb rheoleiddiol mewn cysylltiad i wneud trefniadau ar gyfer hyn. Yn y cyfamser, rhowch wybod i mi os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech drafod unrhyw un o'r pwyntiau uchod mewn mwy o fanylder.

**Yn gywir**



**Kieran Somers**

Pennaeth Cynllunio

Atodiad ynghlwm

## HORIZON COMMERCIAL

Tudalen 2 o 5

[www.horizonnuclearpower.com](http://www.horizonnuclearpower.com)



# HORIZON COMMERCIAL

## ATODIAD

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011-2026 – sylwadau ar safleoedd bywyd gwyllt a ddangosir ar y Map Cyfyngiadau ac ar statws Trwyn yr Wylfa**

### 1. Sylwadau ar y CDLI ar y Cyd

Gwnaeth Horizon sylwadau ffurfiol i'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ("UPCC") ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ("CDLI ar y Cyd") ar 31 Mawrth 2015. Ers gwneud y sylw hwnnw, mae Horizon wedi dod yn ymwybodol o ddau fater CDLI ar y Cyd pellach yr hoffai wneud sylwadau arnynt:

- statws Trwyn yr Wylfa fel "Gwarchodfa Natur Leol", fel y dangosir ar y Map Cyfyngiadau; a
- cynnig UPCC i ddynodi drwy'r CDLI ar y Cyd nifer o "safleoedd bywyd gwyllt", gan gynnwys "safle bywyd gwyllt – a aseswyd" ar safle Wylfa Newydd fel y'i diffinnir gan Ddatganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Cynhyrchu Ynni Niwclear (EN-6) ("**EN6**") ("**Safle NPS Wylfa**").

Mae Horizon yn ymwybodol fod cyfnod ffurfiol ar gyfer sylwadau ar y CDLI ar y Cyd wedi cau ar 31 Mawrth 2015. Dim ond yn ddiweddarach y daeth pwysigrwydd y ddau fater hwn yn amlwg i Horizon yn dilyn:

- ymchwiliad cyfreithiol i drosglwyddiad a statws Trwyn yr Wylfa a thrafodaethau dilynol gyda swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn ("**CSYM**"); a
- mwy o drafodaethau gyda swyddogion CSYM a UPCC ynghylch eu dynodiad bwriadedig o'r safleoedd bywyd gwyllt drwy broses y CDLI ar y Cyd.

### 2. Labelu anghywir Trwyn yr Wylfa fel Gwarchodfa Natur Leol ar y Map Cyfyngiadau

Noda'r Map Cyfyngiadau sy'n ffurfio rhan o'r CDLI ar y Cyd adnau bod Trwyn yr Wylfa wedi'i ddynodi fel Gwarchodfa Natur Leol (yn unol â Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949).

Yn dilyn ymchwiliad pellach i werthu Trwyn yr Wylfa i Horizon gan Gyngor Cymuned Llanbadrig yn 2010, nid yw Horizon yn credu bod Trwyn yr Wylfa yn parhau i gael ei ddynodi fel Gwarchodfa Natur Leol. Mae hyn am nifer o resymau, gan gynnwys:

- Gwerthwyd Trwyn yr Wylfa i Horizon ar y sail bod y gwerthwr yn rhyddhau'r holl hawliau a chyfyngiadau ar yr eiddo. Ni wnaeth ymholiadau penodol y gwerthwr ddatgelu bod Trwyn yr Wylfa wedi ei ddynodi felly.
- Nid oedd unrhyw gynllun rheoli yn ei le i Drwyn yr Wylfa pan y'i gwerthwyd i Horizon (ac nid oes cynllun rheoli ar hyn o bryd); nid oes gan yr awdurdodau lleol bellach fudd cyfreithiol yn y tir a fyddai'n eu galluogi i reoli'r tir at ddibenion cadwraeth a chymunedol perthnasol.

O'r herwydd dylid tynnu'r label hwn o'r Map Cyfyngiadau.

# HORIZON COMMERCIAL

Tudalen 3 o 5

[www.horizonnuclearpower.com](http://www.horizonnuclearpower.com)

## HORIZON COMMERCIAL

Mae Horizon yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio gyda CSYM i gytuno ar raglen addas ar gyfer rheolaeth briodol Trwyn yr Wylfa, gan gydnabod ei ecoleg. Bydd Horizon yn parhau i weithio gyda CSYM drwy ei broses o wneud cais DCO i'r perwyl hwn.

### 3. Dynodiad honedig "safleoedd bywyd gwyllt" drwy'r CDLI ar y Cyd ar safle Wylfa Newydd

Dengys y Map Cyfyngiadau ddynodiad "safle bywyd gwyllt – a aseswyd" ar ffin gogledd-ddwyreiniol safle Wylfa Newydd, gerllaw Bae Cemlyn.

Nid yw Horizon yn glir ynghylch y broses a ddigwyddodd i nodi'r safle fel un "safle bywyd gwyllt a aseswyd" na sut y bwriada'r CDLI ar y Cyd drin/dynodi'r safle hwn.

#### **Cefndir**

Cafodd Horizon nifer o drafodaethau gyda CSYM yn ystod 2010/2011 ynghylch y posibilrwydd o ddynodi safle bywyd gwyllt ar ei dir datblygu. Mewn cyfarfod yn hwyr yn 2012, nododd CSYM ei fod yn ystyried dynodi safle bywyd gwyllt trwy'r CDLI ar y Cyd, er mewn cyfarfodydd eraill roedd CSYM wedi dweud eu bod yn bwriadu dynodi safle bywyd gwyllt cyn diwedd 2012.

Nid yw Horizon wedi cael ei hysbysu bod y safle bywyd gwyllt ar ei dir datblygu wedi ei ddynodi'n ffurfiol.

#### **CDLI ar y Cyd**

Pan gyhoeddwyd y CDLI ar y Cyd adnau, roedd yn rhoi arwydd bod y dynodiadau a ddangoswyd ar y Map Cyfyngiadau yn ddynodiadau **presennol** a grëwyd tu allan i broses y CDLI ar y Cyd. Ni wnaeth awgrymu mai dynodiadau **arfaethedig** oedd y rhain, a oedd yn agored i sylwadau. Dywed:<sup>1</sup>

Dangosir dynodiadau eraill ar-lein ar y Map Cyfyngiadau. Dengys y Map Cyfyngiadau leoliad daearyddol a maint y cyfyngiadau i ddatblygiad sy'n cael eu creu **gan ddeddfwriaeth neu brosesau y tu allan i'r cynllun datblygu**. Er enghraifft, mae'n nodi Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd. Mae'r **Map Cyfyngiadau yn coladu gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli mewn dogfennau a/neu wefannau eraill** a gellir ei ddiweddarau'n hawdd.  
(Ein pwyslais ni)

Datgelodd sgysiau ffôn dilynol gyda CSYM a'r UPCC ym mis Gorffennaf 2015 nad yw'r safleoedd bywyd gwyllta ddangosir ar y Map Cyfyngiadau mewn gwirionedd yn ddynodiadau presennol. Dealla Horizon yn awr bod y Cynghorau mewn gwirionedd yn bwriadu dynodi'r safleoedd hyn - fel "safleoedd bywyd gwyllt" (fel y'u diffinnir yn y CDLI ar y Cyd) drwy'r broses CDLI ar y Cyd.

#### **Effaith dynodi'r safle bywyd gwyllt drwy'r CDLI ar y Cyd**

---

<sup>1</sup> Datganiad ysgrifenedig y CDLI ar y Cyd, para 1.25.

## HORIZON COMMERCIAL

Tudalen 4 o 5

[www.horizonnuclearpower.com](http://www.horizonnuclearpower.com)

## HORIZON COMMERCIAL

Os dynodir y safle bywyd gwyllt yn y CDLI ar y Cyd, yna byddai'n cael budd o nifer o bolisiâu arfaethedig gan gynnwys Polisi AMG5 (Gwarchod Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Leol) a Pholisi Strategol PS16 (Cadw a gwella'r amgylchedd naturiol). Mae Polisi AMG5 er enghraifft yn darparu:

Bydd cynigion sy'n debygol o achosi niwed sylweddol uniongyrchol neu anuniongyrchol i Warchodfa Natur Leol (GNL), Safleoedd Bywyd Gwyllt (SBG) neu safleoedd daearegol / geomorffolegol pwysig rhanbarthol (RIGS) **yn cael eu gwrthod, oni bai y gellir profi bod angen cymdeithasol amgylcheddol a/neu economaidd tra phwysig ar gyfer y datblygiad, ac nad oes unrhyw safle addas arall a fyddai'n osgoi cael effaith andwyol ar safleoedd o werth cadwraeth natur a phwysigrwydd daearegol lleol.**

(Ein pwyslais ni)

Gallai hyn gael goblygiadau i allu Horizon i gynnal ei ddatblygiad. Mae gan Horizon bryderon ynghylch priodoldeb dynodi safle bywyd gwyllt ar safle sydd wedi ei nodi fel un a allai fod yn addas i'w ddefnyddio i ddatblygu ynni niwclear yn EN-6, ac mae cynigion datblygu o'r fath ar y gweill.

#### 4. Safbwynt Horizon ar safleoedd bywyd gwyllt

Er bod sylwadau Horizon ar 31 Mawrth 2015 yn ffocysu'n helaeth bolisiâu'r CDLI ar y Cyd, gan gynnwys AMG5, mae Horizon yn cadarnhau ei fod yn pryderu am y weithdrefn sydd wedi arwain at ddynodiad honedig y safle bywyd gwyllt drwy'r broses CDLI ar y Cyd a bwriada wneud mwy o sylwadau ar y mater yn ystod yr archwiliad o'r CDLI ar y Cyd.

Mae Horizon wedi ymrwymo i ddatblygu prosiect sy'n parchu ecoleg yr ynys cyn belled ag y bo'n ymarferol, a bydd yn darparu buddion cymunedol sylweddol o ran manau agored a chyfleusterau cyhoeddus, ac mae'n edrych ymlaen at weithio gyda'r Cynghorau i gyflawni hyn drwy gytundeb ar gynllun rheoli priodol i Drwyn yr Wylfa fel rhan o'r broses DCO.

## HORIZON COMMERCIAL

Tudalen 5 o 5

[www.horizonnuclearpower.com](http://www.horizonnuclearpower.com)